



ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG CYNGOR SIR CEREDIGION 2024/25



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

CYNNWYS

CYFLWYNIAD	3
Uchafbwyntiau: 2024/25	4
Mesur ein llwyddiannau: Edrych yn ôl dros 2024-2025	5
Cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2024 – 2029.....	5
Ymrwymiad barhaus gwasanaethau'r cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.....	5
Cynnydd yn yr ymdrech gydwobodol gan wasanaethau i edrych ar effaith y Gymraeg pan yn cynnal ymgynghoriadau	6
Hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle ac yn lleol.....	6
Gwersi Cymraeg teilwredig i weithwyr y cyngor – gan Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith	7
Adroddiad Estyn 2024 adborth ar y Gymraeg yn galonogol	7
Camau gweithredu:	9
Gwasanaethau Cymraeg	9
Ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd.	9
Taflen Ffeithiau	10
Pwyllgor Iaith Cyngor Sir Ceredigion.....	11
Hunan-asesu – Myfyrio ar Holiaduron y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.....	11
Cwynion	13
Gweithgor y Gymraeg	14
Edrych Ymlaen: 2025/26	16
Lawnsio Tudalen y Gymraeg ar wefan y Cyngor, er mwyn sicrhau hygyrchedd gwybodaeth am y Gymraeg.....	17
Adolygu prosesau arfarnu i gael gwell dealltwriaeth o lefelau ALTE wrth ddechrau ar y broses o newid ALTE i CEFR.	17
Parhau i weithio'r gyda'r gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth i ymchwilio i effeithiolrwydd y Fframwaith iaith a'n dulliau o fonitro gallu ieithyddol staff y Cyngor.	17
Creu Hyfforddiant Safonau'r Gymraeg.....	17
Cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n mynychu gwersi Cymraeg ffurfiol gyda 'Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith' wrth iddyn nhw ddychwelyd i'r gweithle.	18
Atodiadau	19
Atodiad 1: Data Cwynion	19
Atodiad 2: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio	20
Atodiad 3: Cefndir yr adroddiad	35



“Rydym am weld y Gymraeg a Chymreictod yn perthyn i bob un yng Ngheredigion ac yn destun balchder ymysg holl drigolion y sir.”

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ceredigion ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif bwrpas yr adroddiad yma yw i rannu gwybodaeth ar sut aethom ati i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yma yng Ngheredigion rhwng 2024-2025. Mae'n gyfle i ni edrych yn ôl a myfyrio dros y flwyddyn a fu ac adrodd ar sut aethom ati i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar uchafbwyntiau'r flwyddyn adrodd gan gynnwys cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2024-2029, gwersi Cymraeg teilwredig i weithwyr y Cyngor ac hefyd ymrwymiad barhaus gwasanaethau'r Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mi fydd yr adroddiad yn edrych ymlaen yn ogystal, i 2025-2026 pan fyddwn yn lawnsio tudalen 'Y Gymraeg' ar wefan y Cyngor Sir ac yn parhau i weithio'r gyda'r gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth i ymchwilio i effeithiolrwydd y Fframwaith Iaith.

Mae gan Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 weledigaeth Cyngor Sir Ceredigion gyda'r nod o **“ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a dwyieithog sy'n cynnig gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, cefnogi amgylchedd iach a hyrwyddo llesiant ein pobl a'n cymunedau”** (Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027, Cyngor Sir Ceredigion)

Mae Strategaeth Hwb i Economi Ceredigion 2020-35 yn pwysleisio bod angen sicrhau **“cyfleoedd i helpu'r Gymraeg i ffynnu trwy gamau datblygu economaidd cadarnhaol. Yn ei hanfod, bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy sicrhau bod gan y rhai sy'n siarad Cymraeg yr hyder, y sgiliau a'r cyfleoedd i ddatblygu busnesau, i weithio mewn swyddi o werth uwch, ac i weld Ceredigion fel lle ffyniannus ac egniol i fyw a gweithio ynddo.”**

Wrth ddod â'r rhagair i ben hoffwn dynnu sylw at y camau â gymerwyd yn 2024 i ail-strwythuro ein Fforwm Iaith – Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Penderfynwyd diwygio'r cylch gorchwyl sydd wedi galluogi'r fforwm i gydweithio a'i phartneriaethau mewn modd mwy effeithiol gan ehangu aelodaeth y Fforwm.

Edrychwn ymlaen i Haf 2025 pan fyddwn yn cynnal ein Cynhadledd Iaith gyntaf yng Ngheredigion. Bydd hwn yn gyfle i ddod ag aelodau'r Fforwm ac eraill at ei gilydd i ddathlu'r ymdrech barhaus i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein Sir.

Uchafbwyntiau: 2024/25



Cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2024-2029 ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.



Ymrwymiad barhaus Gwasanaethau'r Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.



Cynnydd yn yr ymdrech gydwybodol gan wasanaethau i edrych ar effaith y Gymraeg pan yn gwneud ymgynghoriadau.



Hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle ac yn lleol.



Gwersi Cymraeg teilwredig i weithwyr y Cyngor.



Arolwg Estyn 2024 - adborth ar y Gymraeg yn galonogol.

Mesur ein llwyddiannau: Edrych yn ôl dros 2024-2025

Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw i arddangos ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf gan dynnu sylw at uchafbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn nodi datblygiadau i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg a chynyddu ein defnydd mewnol o'r iaith.

Cyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2024 – 2029

Cyhoeddwyd ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2024 ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn unol â Safon 145/146. Ein Fforwm Iaith sef 'Dyfodol Dwyieithog Ceredigion' sy'n gyfrifol am lunio a monitro camau gweithredu ein Strategaeth. Yn ystod y flwyddyn a fu rydym wedi cymryd camau i ail-strwythuro ein Fforwm er mwyn sicrhau dulliau mwy strategol a rhagweithiol o weithredu. Wrth ail-strwythuro rydym wedi diwygio ein cylch gorchwyl a fydd yn cael ei adolygu yn flynyddol, ynghyd â ehangu aelodaeth y Fforwm er mwyn sicrhau partneriaeth effeithiol sy'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid fydd yn ein galluogi i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Yn Haf 2025 fe fyddwn yn cynnal ein Cynhadledd Iaith gyntaf yng Ngheredigion. Bydd hwn yn gyfle i ddod ag aelodau'r Fforwm ac eraill at ei gilydd i ddathlu'r ymdrech barhaus i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein Sir.

Ymrwymiad barhaus Gwasanaethau'r Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Gofynnwyd i holl wasanaethau'r Cyngor gwblhau holiadur yn ddiweddar er mwyn asesu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'n amlwg bod gan ein Swyddogion Arweiniol Corfforaethol hyder yn eu gwasanaethau o ran Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae'r ymatebion yn dangos bod ymwybyddiaeth a'r hyder i weithredu Safonau'r Gymraeg yn treiddio trwy'r gwasanaethau ac mae'r ymdrech gydwytbodol yna i'w weld wrth i ni barhau i ddatblygu ein defnydd mewnol o'r iaith.

Rydym yn cydweithio'n gyson gyda Chomisiynydd y Gymraeg wrth ymateb i holiaduron a mynychu gweithgorau sydd yn sicrhau fod gennym ni y wybodaeth ddiweddaraf o'r hyn sydd yn ofynnol i ni ei wneud er mwyn cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.

Cynnydd yn yr ymdrech gydwbybodol gan wasanaethau i edrych ar effaith y Gymraeg pan yn cynnal ymgynghoriadau

Ym mis Hydref 2024 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gwyn oedd yn amau diffyg cydymffurfiaeth y dogfennau ymgynghori a oedd yn ymwneud â'r broses o gau ysgol, mewn perthynas â'r safonau llunio polisi.

Yn dilyn hyn cynhaliwyd Gweithdy Corfforaethol er mwyn tynnu sylw Swyddogion a Rheolwyr at y prosesau sy'n ymwneud ag Ymgynghoriadau a'r angen i wneud yr ymdrech gydwbybodol i asesu effaith ar y Gymraeg pan yn ymgynghori. Erbyn hyn mae'r Swyddog Polisi Iaith a'r Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant wedi adolygu a chryfhau prosesau yn sicrhau er mwyn sicrhau bod cydweithio rhwng gwasanaethau o'r cychwyn cyntaf pan yn trafod Asesiad Effaith Integredig gan gynnwys paratoi cwestiynau enghreifftiol am y Gymraeg i'w cynnwys yn yr Asesiad Effaith.

Hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle ac yn lleol

Mae yna ddatblygiadau arloesol wedi bod o ran hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle ac yn lleol.

Mae'n ein ymgyrchoedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn parhau er enghraifft drwy bostiadau cyson ar y cyfryngau cymdeithasol, ar Ddiwrnod Shwmae, yn ystod ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg ac ar Fawrth y Cyntaf i nodi dim ond rhai.

Yn dilyn cais gan Wasanaeth Porth Gofal rydym wedi cael cyfle arbennig i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiwylliant a Chymreictod mewn dau o gartrefi preswyl Ceredigion. Mae hwn wedi bod yn lwyddiant ysgubol wrth i ni drefnu amryw o weithgareddau e.e. ar ddydd Miwsig Cymru ac ar ddydd Santes Dwynwen.

Yn Ngheredigion gallwn ymhyfrydu yn yr adnoddau sydd gyda ni i rannu'r Gymraeg yn ein cymunedau. Mae ein Menter Iaith - CERED yn llwyddo i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy ystod o weithgareddau i bobl o bob oed . Mae eu gweithgareddau yn amrywio o glybiau lego, teithiau cerdded (AR GERED) a Sawna a Sgwrs ar y prom yn Aberystwyth. Mae Theatr Felinfach yn cynnig cyfoeth o brofiadau i drigolion Ceredigion a hyn drwy berfformiadau yn y Theatr ac hefyd drwy amrywiaeth o weithgareddau e.e. o sesiwn Tic Toc i blant 2-3 oed i sesiwn Hwyl a Hamdden i bobl dros hanner cant.

Mae Ceredigion wedi elwa'n fawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf o gyllid ARFOR. Rhaglen cymorth economaidd Llywodraeth Cymru yw ARFOR sy'n canolbwyntio ar gryfhau'r Gymraeg ac economïau lleol yng nghadarnleoedd Cymraeg yng Nghymru gyda'r nod o greu cyfleoedd i bobl i aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd iddynt, cefnogi busnesau Cymraeg, ac yn gyffredinol meithrin diwylliant Cymraeg bywiog. Wrth ystyried pa effaith mae ARFOR wedi ei gael cael ar unigolion yng Ngheredigion gweler ddyfyniad gan Anwen James o gwmni Ani-benod cwmni dillad, anrhegion a deunydd ysgrifennu wedi'i leoli yng Ngheredigion. Dywedodd Anwen;

“Mae wedi galluogi i ni ddiogelu cyflogi 5 person bellach. Mae hefyd yn creu swyddi arloesol, unigryw a diddorol o fewn ein cymuned. Gan fod yr iaith Gymraeg yn graidd i’n busnes, mae’n help i ddatblygu ymwybyddiaeth a phwysigrwydd yr iaith dros Gymru a thu hwnt. Mae wedi cefnogi Mam ifanc i fedru gweithio’n hyblyg o amgylch ei phlant, wrth allu ei magu yn bro ei mebyd, yn hytrach na chwilio am swyddi creadigol yn y ddinas fawr, rydym wedi medru sefydlu hyn adref, yng Ngheredigion”.
Anwen, Ani-bendod

Gwersi Cymraeg teilwredig i weithwyr y cyngor – gan Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith

Rydym wedi elwa o’r ffaith fod ein **Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith** yn gweithio’n fewnol. Mae rhaglen Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion 2024/2025 wedi profi’n llwyddiant mewn sawl ffordd. Gwelir bod y rhaglen Cymraeg Gwaith wedi darparu addysg ar holl lefelau dysgu’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, o lefel Mynediad i Uwch 3. Mae’r niferoedd yn galonogol iawn ar draws y lefelau dysgu hyn.

Rhedwyd y cyrsiau hyn ar draws y flwyddyn academiaidd, gydag aelodau staff yn mynychu dosbarthiadau wythnosol o dan arweiniad y Swyddog Hyfforddi. Nodir bod 20 wedi cofrestru ar gyfer yr arholiadau Dysgu Cymraeg CBAC a gynhelir yn Haf 2025 ar sail eu hastudiaethau eleni. Trefnir sesiynau adolygu arbennig ar gyfer y dysgwyr, ac fe’i perir â Ffrind Iaith Arholiad o blith staff y Cyngor sy’n siaradwyr Cymraeg. Rhoddir adnoddau adolygu a baratoir gan y Swyddog Hyfforddi i’r dysgwyr a’r Ffrindiau Iaith, er mwyn iddynt gael ymarfer ac adolygu ar y cyd.

Datblygwyd a darparwyd cyrsiau newydd ym maes y Sector Gofal Cymdeithasol yn 2024/2025. Fe’u lluniwyd ar sail angen a adnabuwyd gan weithwyr yn y sector yng Ngheredigion a chan dîm Dysgu a Datblygu’r Cyngor Sir. Fe’u darparwyd ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd, gyda phob cwrs yn cynnwys tair sesiwn. Mynychwyd y cyrsiau hyn gan 14 o ddysgwyr. Ar sail eu llwyddiant bwriedir eu cynnig ddwywaith eto yn ystod 2025.

Yn ogystal rhedwyd cylchlythyr mewnol misol #Gwena yn ystod 2024/2025. Cyfrannodd y Swyddog Hyfforddi at #Gwena mewn dwy brif ffordd.

- Lluniodd fideo addysgiadol ar gyfer pob rhifyn, gan drafod agweddau ar ramadeg, hanes, a chymdeithaseg yn y Gymraeg;
- Trefnodd 10 cyfweiliad â dysgwyr o’r rhaglen Cymraeg Gwaith i’w cynnwys fel ‘Ysbrydoliaeth y Mis’ yn y cylchlythyr. Sicrhawyd bod y dysgwyr a ddewiswyd yn cynrychioli amrediad o lefelau dysgu’r rhaglen Cymraeg Gwaith, a bod pob un yn staff o adrannau gwahanol o’r Cyngor.

Adroddiad Estyn 2024 – adborth ar y Gymraeg yn galonogol

Ym mis Mehefin 2024 cafwyd adolygiad o Wasanaethau Addysg Cyngor Sir Ceredigion gan ESTYN. Fel rhan o’r arolwg edrychwyd ar ba mor effeithiol oedd trefniadau’r

awdurdod lleol ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Dywed ESTYN , ***“Mae'r strategaeth gorfforaethol yn gosod cyfeiriad pwrpasol i waith y Cyngor wrth ddatblygu'r Gymraeg, gan sicrhau bod yr iaith yn flaenllaw yng ngwaith bob adran.....Mae trefniadau'r awdurdod o ran datblygu'r Gymraeg yn gryfder arwyddocaol, ble gwelir sawl agwedd o ragoriaeth ymhlith ei ddarpariaeth a'i arferion. .”***

Nododd ESTYN hefyd yn ei hadroddiad bod ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ***‘uchelgeisiol ac yn glir o ran amcanion yr awdurdod i ddatblygu'r Gymraeg,’*** Yn sgil datblygiadau'r CSCA mae 89 o bobl wedi derbyn gwersi Cymraeg gan gynnwys cynorthwyyr, athrawon ac hefyd rhieni. Mae symud tuag nodau'r CSCA wedi bod yn gyfle ardderchog i ddatblygu'r Gymraeg o fewn ein ysgolion. Mae cyllid cynllun ARFOR wedi cefnogi gwaith gan ariannu creu podlediadau teilwredig i athrawon er mwyn datblygu a gloywi ei iaith yn yr ysgol.

Camau gweithredu: Gwasanaethau Cymraeg

Ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd.

Yn yr adran hon amlygir ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd. Mae'r Safonau yma yn gofyn i swyddogion ystyried pa effaith y bydd eu penderfyniadau polisi yn ei gael ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn unol â'i ymrwymiad i gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Datganiad Polisi, sydd ar gael ar wefan gorfforaethol y Cyngor, er mwyn hysbysu'r cyhoedd bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor; trwy'r post, gwasanaethau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar lein.

Mae'r Datganiad Polisi hwnnw yn nodi:

"Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i gefnogi'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg ledled y Sir." -Ddatganiad Polisi iaith Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion

Ceir hefyd **Siarter Cwsmer** sydd i'w weld ar y wefan gorfforaethol. Mae'r siarter hwnnw yn egluro bod y Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau ac yn ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n addas i anghenion y defnyddiwr ac mewn ffordd gyfleus a chwrtais. Mae'r Siarter Cwsmer yn disgrifio lefel y gwasanaeth y gall defnyddwyr ei ddisgwyl wrth gysylltu gyda'r Cyngor, ac mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â dewis iaith y defnyddiwr. Rydym yn parhau i rannu negeseuon yn atgoffa pobl i ddilyn ein tudalennau Cymraeg a Saesneg, ac wedi 'pinio'r' neges at dop y dudalen. Golyga hyn mai dyma'r neges gyntaf fydd pobl yn ei gweld wrth fynd ar ein tudalen. Rydym hefyd yn parhau i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan gyhoeddi datganiadau, newyddlenni, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, a negeseuon yn ddwyieithog, gan roi'r Gymraeg yn gyntaf.

Taflen Ffeithiau



28 Grant Cymunedol wedi'u cyflwyno yn y Gymraeg.

2,966 wedi gwyllo gwe-ddarlllediadau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg.



Ymgyrch Rhoi Dy Farn y Cyngor leuenctid wedi adrodd Hybu'r Iaith Gymraeg fel un o'u pynciau llosg ac wedi ei roi yn yr 8fed safle (allan o 22)

Cynnydd yn y nifer o ddilynwyr ar safle gyfryngau cymdeithasol Cymraeg y Cyngor.



2,873 o ddilynwyr ar safle Facebook Cymraeg y Cyngor.

75% o gynnydd yn y gefnogaeth i ddefnyddwyr Cymraeg s'yn dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg Mynediad i'r Uwch.



94% yn cael y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau

Cymraeg yn ystod eu diwrnod gwaith yn ôl Arolwg Pobl 2024 – arolwg mewnol y Cyngor Sir.

Pwyllgor Iaith Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r grŵp yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i rannu gwybodaeth, i wneud penderfyniadau, i gymeradwyo dogfennau ac i ystyried sut mae hyrwyddo a datblygu defnydd o'r Gymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol. Yn ystod ein pwyllgorau trafodir amryw o faterion gan gynnwys:

- gwella cyfathrebu gydag aelodau etholedig wrth rannu gwybodaeth am ddatblygiadau'r Gymraeg
- hygyrchedd gwefan y Cyngor Sir o ran y deunydd Cymraeg
- effeithiolrwydd ein fframwaith iaith bresennol
- adroddiad blynyddol gan CERED a Theatr Felinfach
- adroddiad ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg
- diweddariad Polisi Enwi Strydoedd a Thai
- sgiliau Cymraeg y Gweithlu Corfforaethol
- adroddiad Hyfforddiant Dysgu Cymraeg yn y gweithle

Hunan-asesu – Myfyrio ar Holiaduron y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol

Unwaith yn rhagor, fe wnaethom gynnal adolygiad ynghylch cydymffurfiaeth Gwasanaethau Cyngor a Safonau'r Gymraeg, Eleni cymerwyd camau i ddiwygio'r broses hunan-reoleiddio er mwyn cynnal ymchwiliad mwy hygyrch ac effeithiol. Cysylltwyd gyda'r 12 Swyddog Arweiniol Corfforaethol o fewn y Cyngor Sir. Cafwyd sicrwydd cyffredinol a nodwyd bod yna ymrwymiad gadarnhaol ar draws ein gwasanaethau wrth gwrrdd â gofynion y safonau. Mae'r ffaith bod Cyngor Sir Ceredigion yn gallu sicrhau mynediad teg i wasanaethau, os ydyw hynny mewn cyfleoedd ariannu, ymgynghoriadau, neu gymorth busnes, yn thema ganolog sy'n amlwg ar draws pob maes.

Mae'r hunan asesiad hwn gyfle i fyfyrwyr ac i anelu at geisio codi ymwybyddiaeth y 12 prif wasanaeth ynghylch ymrwymadau'r Cyngor o ran Safonau'r Gymraeg. Mae'r asesuadau hefyd yn cynorthwyo'r gwasanaethau i rannu arfer da, i adnabod heriau, i ddatblygu rhaglen ymyraethau a hyfforddiant perthnasol, yn ogystal â pharatoi er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r galw am hunanasesiad corfforaethol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Gymraeg yn greiddiol i bob gweithgaredd, boed mewn partneriaethau, polisiau mewnol, neu wasanaethau sy'n gwasanaethu'r cyhoedd. Mae'r ffocws ar sicrhau cyfathrebu dwyieithog (Cymraeg yn gyntaf) ar draws pob gwasanaeth yn amlygu ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith.

Thema drawsbynciol allweddol yw'r ffocws ar anghenion y cwsmer (h.y. os ydynt yn staff mewnol neu'n rhanddeiliaid allanol). Mae'r gwasanaeth yn blaenoriaethu creu amgylchedd lle gall unigolion Cymraeg eu hiaith gael mynediad hawdd at wasanaethau a

chyfathrebu yn eu dewis iaith, gan sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ar bob pwynt cyswllt.

Mae yna ymdrech gydwybodol ar draws gwasanaethau'r Cyngor ein bod yn cydymffurfio'n dda ac yn ymwybodol o beth sydd angen er mwyn cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg. Wrth dynnu sylw y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol at gydymffurfiaeth â dyletswyddau iaith Gymraeg o fewn gwasanaethau dywed un adran am bwysigrwydd yr iaith a'r Diwylliant Cymraeg wrth gefnogi gofal a chymorth mewn Cartrefi Preswyl y sir, mae'r ymweliadau cyson gan CERED ein Menter Iaith yn cefnogi hyn.

Mae yna nifer fawr o uchafbwyntiau i'w nodi gan gynnwys y defnydd o arwyddion corfforaethol Cymraeg ac ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth Gymraeg wrth ymgysylltu ag eraill yn Gymraeg. Nodir bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn cefnogi dysgwyr ac yn cynnig cymorth ar daith dysgwyr. Mae Tîm Cefnogi'r Grŵp Arweiniol yn danfon e-byst drwy gyfrwng y Gymraeg at ei gilydd er mwyn i'r dysgwr gyfarwyddo gyda'r iaith a dod yn gyfarwydd gyda'r termau.

Wrth droi at yr heriau gwelir bod recriwtio mewn meysydd arbenigol yn parhau i fod yn her i amryw o wasanaethau e.e yr adran gynllunio, gweithwyr gofal a'r adran gyfreithiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yna awydd gan recriwtiaid newydd i ddysgu'r Gymraeg. Dylid nodi hefyd bod gwasanaethau yn llwyddo i recriwtio swyddogion gyda'r sgiliau priodol. Elfennau allweddol arall yw'r cynnig i fynd ar hyfforddiant dysgu Cymraeg a ddarperir gan ein Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith, fodd bynnag, oherwydd ymrwymadau gwaith, nid yw bob amser yn bosibl mynychu'r hyfforddiant.

Cwynion

Mae'n bwysig nodi mai un cwyn yn unig a gofnodwyd gan yr Adran Gwynion. Roedd y gwyn yn ymwneud â'r adran Cyllid a Chaffael a Gwasanaeth Trethiant Lleol. Derbyniwyd y gwyn ac fe gafwyd ymddiheuriad i'r defnyddiwr a neges i'r holl staff yn y gwasanaeth i'w hatgoffa am y safonau.

Ym mis Hydref 2024 derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gwyn gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn amau bod yna ddiffyg cydymffurfiaeth yn nogfennau ymgynghori cau ysgol Llangwryfon, mewn perthynas â'r safonau llunio polisi. Yn yr achos hwn, doedd dim angen cynnal ymchwiliad er mwyn cymryd camau i sicrhau newid yn ymddygiad y Cyngor; roedd y Cyngor wedi ymrwymo i wneud hynny o'i gwirfodd a hynny fel mater o flaenoriaeth.

Yn sgil yr achos uchod, fel rhan o Fframwaith Ymgynghori'r Cyngor datblygwyd set o gwestiynau y gall swyddogion eu defnyddio wrth gynnal eu ymgynghoriad er mwyn ystyried beth yw barn y cyhoedd ar effaith arfaethedig y penderfyniad ar y Gymraeg.



2

gwyn ynghylch gweithrediad safonau'r

Gymraeg 2024/25. Lawr **33%** ers blwyddyn diwethaf
(*un cwyn yn llai*).

1

gwyn i'r Adran Gwynion yn ymwneud â
Cyllid a Chaffael Gwasanaeth Trethiant Lleol.



1

gwyn i Gomisiynydd y Cymraeg

Camau gweithredu: Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ac yn darparu hawliau i weithwyr yng nghyd-destun derbyn eu gwasanaeth adnoddau dynol yn eu dewis iaith. Mae'r set o Safonau yn gofyn i'r Cyngor edrych ar ddulliau i gynyddu a hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol, er mwyn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru i weld mwy o bobl yn siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Gweithgor y Gymraeg

Sefydlwyd Gweithgor y Gymraeg ym mis Hydref 2024. Prif nod y gweithgor yw i ymdrin ag amryw o bynciau Adnoddau dynol gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, i drafod hanfodion Safonau'r Gymraeg gan gynnwys heriau recriwtio, Fframwaith iaith y Cyngor ac hefyd i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein gwersi Cymraeg Gwaith. Swyddogion o'r Gwasanaeth Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant a Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth sydd yn perthyn i'r grwp yma.

Recriwtio

Mae'r Cyngor yn parhau i fesur sgiliau iaith staff gan ddefnyddio fframwaith ALTE (The Association of Language Testers in Europe). Mae'r fframwaith hwn yn gosod lefel sgiliau iaith rhwng 0-5, ac yn gosod 'datganiadau medru pwrpasol'. Bydd pob aelod o staff yn hunan-asesu ei sgiliau iaith gyferbyn a'r datganiadau medru hyn, ac yn eu cofnodi ar system Ceri – system fewnol y Cyngor.

Mae Gweithgor y Gymraeg eisoes wedi trafod materion yn ymwneud â'r fframwaith iaith, gan weithio gyda Swyddog y Gymraeg, i gefnogi adolygu lefelau gofynion y Gymraeg ar draws pob rôl a gweithredu canllawiau hyfedredd iaith hawdd ei ddefnyddio ar gyfer rheolwyr. Fel Cyngor Sir rydym wedi elwa o'r **Pecyn Recriwtio Gweithlu Dwyieithog** – Bu swyddogion y Cyngor Sir yn rhan o'r broses ymchwilio i'r adnodd arloesol hon a luniwyd gan brifysgol Bangor i gefnogi sefydliadau i recriwtio staff â sgiliau Cymraeg.

Hyfforddiant

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn trefnu ac yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r Cyngor. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal Safonau'r Gymraeg wrth ddarparu hyfforddiant ac mae'n rhagweithiol wrth ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Mae unrhyw hyfforddiant/cyrsiau a gynigir yn cael eu hyrwyddo trwy ein system fewnruwyd (sydd ar gael yn yr iaith o'u dewis), trwy Gylchlythyrau Dysgu a Datblygu a'r Wefan sy'n ddwyieithog.

Mae modiwlau e-ddysgu ar gael i staff y Cyngor ar ein system Rheoli Dysgu, Cronfa Ddysgu Ceredigion, ac mae'r system ar gael yn Gymraeg a Saesneg a gall defnyddwyr ddewis ymgymryd â modiwlau e-ddysgu yn yr iaith o'u dewis. Mae cyfanswm o 8 modiwl e-ddysgu yn orfodol i'r holl staff ac maent ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys y modiwl eDdysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg.

Mae Tiwtor Cymraeg Gwaith y Cyngor yn eistedd o fewn y Tîm Dysgu a Datblygu ac mae'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg i staff. Yn ystod y flwyddyn adrodd rhagorwyd ar y targed o gefnogi defnyddwyr Cymraeg ar draws Mynediad i'r Uwch gyda cynnydd o 75%.

Er mwyn hyrwyddo'r 'Cynnig Actif'/'Mwy na Geiriau yn unig' o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae rhaglen Gymraeg bwrpasol sy'n cynnwys 3 sesiwn wedi'i chyflwyno ddwywaith y flwyddyn ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol allanol, nod hyn yw annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg gydag unigolion a theuluoedd sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol. Fel rhaglen beilot, mae'r tiwtor hefyd wedi dechrau cyflwyno cyfres o sesiynau pwrpasol yn Hafan y Waun un o gartrefi preswyl y cyngor, a bydd y rhaglen hon yn cael ei gwerthuso ac o bosibl ei hailadrodd.

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu wedi dechrau defnyddio cynnwys rhith-realiti wrth gyflwyno'r hyfforddiant eleni, mewn cydweithrediad â'r darparwr a'r rheolwr tîm ar gyfer Gwaith ac Atal Ieuenctid Cymunedol a chwmni ffilm arbenigol cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi medru cyfieithu cynnwys y ffilm a'r capsiynau i'r Gymraeg a'u ddefnyddio mewn ymyriadau gwaith ieuenctid gyda phobl ifanc.

#Gwena

Rydym yn parhau i rannu ein e-newyddlen misol #Gwena gyda'r gweithlu, prif nod '**#Gwena**' yw i hyrwyddo'r Gymraeg mewn amryw o ffurf gan gynnwys hysbysebu digwyddiadau amrywiol sydd yn hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion a rhannu podlediadau dysgu Cymraeg, newyddion, cerddoriaeth, a cwisiau. Mae slot 'Ysbrydoliaeth y Mis' wedi profi i fod yn boblogaidd iawn – yma cawn glywed profiadau gweithwyr y Cyngor sydd wedi ymdrechu i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'r slot yma yn gyfle iddynt rannu ei taith tuag at ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r e-newyddlen yma yn ddolen gyswllt rhwng Tîm Diwylliant y Cyngor, Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith â dysgwyr Cymraeg, siaradwyr Cymraeg llai hyderus a Chymry Cymraeg gweithle'r Cyngor. Mae #Gwena wedi esblygu yn ystod y flwyddyn ac hynny yn dilyn adborth gan y gweithlu, bellach mae'r e-newyddlen yn fwy hygyrch i'r defnyddiwr. Mae Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith ynghyd â Thîm Diwylliant y Cyngor yn parhau i gyfrannu at ddatblygu a cylchlythyr misol Gwena.

Edrych Ymlaen: 2025/26



Lawnsio Tudalen y Gymraeg ar wefan y Cyngor, er mwyn sicrhau hygyrchedd gwybodaeth am y Gymraeg.



Adolygu prosesau arfarnu i gael gwell dealltwriaeth o lefelau ALTE wrth ddechrau ar y broses o newid ALTE i CEFR.



Parhau i weithio'r gyda'r gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth i ymchwilio i effeithiolrwydd y Fframwaith Iaith a'n dulliau o fonitro gallu ieithyddol staff y Cyngor.



Creu Hyfforddiant Safonau'r Gymraeg.



Cynnig cefnogaeth i fyfyrwyr sy'n mynychu gwersi Cymraeg ffurfiol gyda 'Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith' wrth iddyn nhw ddychwelyd i'r gweithle.

Lawnsio Tudalen y Gymraeg ar wefan y Cyngor, er mwyn sicrhau hygrychedd gwybodaeth am y Gymraeg.

Mae'r gwaith o gynllunio tudalen newydd sbon ar gyfer materion Cymraeg Ceredigion ar y gweill. Fe fydd tudalen y Gymraeg ar wefan y Cyngor yn sicrhau ffordd llawer mwy hygrych i'r defnyddiwr i gael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth sy'n ymwneud a'r Gymraeg yng Ngheredigion gan gynnwys Y Gymraeg mewn Busnes a'r Gymraeg mewn Addysg i enwi dim ond rhai. Fe fydd modd rhannu digwyddiadau a lleoliadau sy'n cynnig gweithgareddau Cymraeg yng Ngheredigion ar ffurf map rhyngweithiol.

Adolygu prosesau arfarnu i gael gwell dealltwriaeth o lefelau ALTE wrth ddechrau ar y broses o newid ALTE i CEFR.

